Cyngor Bro Llanfairpwllgwyngyll
Cofnodion Cyfarfod 26ain Chwefror 2013

Presennol: A. Mummery (Cadeirydd), A. Jones, A. Williams, J. Roberts, A. Thomas, J. A. Edwards, B. Jones, E. Jones, H. Huws, D. Williams, E. Parry, G. Parry.
Cynghorydd Sirol J. Evans. Anwen Le Cras (Clerc)

1. Ymddiheuriadau: G.C. Jones, I. Bebb

2. Datganiadau Diddordeb Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau diddordeb

3. Materion Cyngor Sir
Cyllideb / Treth Cyngor - Codiad o 5% sef 86c yr wythnos i drethdalwyr.
Estynnwyd gwahoddiad i Alun Owen, Swyddog AHNE i'r cyfarfod i egluro rôl y Bartneriaeth AHNE. Cafwyd neges gan Mr Owen nad oedd am fynychu'r cyfarfod a gyrrodd eglurhad o'r sefyllfa drwy e-bost.
H. Huw i ddrafftio llythyr i'r Swyddog yn gofyn am esboniad o'r gwahaniaeth rhwng Y Bartneriaeth AHNE a'r Pwyllgor JAC.

4. Cyflwyno a Chadarnhau Cofnodion 29ain Ionawr 2012
Cynigwyd J. Roberts ac eiliwyd gan H. Huws. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir gyda fan cywiriadau.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
5.1 Llwybr/Lon Cil y Graig, nodwyd bod yr achos wedi bod yn y llys ond nid oes gwybodaeth ar y canlyniad. Nodwyd mai cwmni Beardsmore sydd piau'r tir.
5.2 Y Cadeirydd wedi gofyn am 4 bocs halen ychwanegol i'r pentref.
5.3 Y Gwlâu Blodau ym maes parcio'r Gors - E. Parry wedi trefnu i'r Gwasanaeth Prawf ddod a chriw gwaith i dacluso'r gwelyau a chlirio'n gyffredinol. Y gwaith eisoes wedi cychwyn. Bydd angen pridd i lenwi'r gwelyau yn barod i blannu blodau.
5.4 Ieuan Jones glanhawr y Gors yn dal i ffwrdd o'i waith. Y Clerc yn disgwyl iddo gysylltu gyda dyddiad cychwyn yn ôl ar ôl iddo weld meddyg yn yr ysbyty wythnos yma. Bydd angen sicrhau ei fod yn cael cyfweliad cychwyn gwaith wedi salwch gan y Clerc/Cadeirydd.
5.5 Gwlâu Blodau o flaen y deintydd - Cynghorydd J. Evans wedi siarad gyda'r perchennog ac wedi cael yr ymateb ei fod am dacluso'r gwelyau ei hun. Y Clerc hefyd wedi cysylltu'n ysgrifenedig ond heb gael ymateb hyd yma.
5.6 Llwybr troed rhwng Lôn Foelgraig a Lon Hedydd - Cynghorydd Sirol J. Evans wedi cyfarfod gyda'r swyddog llwybrau sydd wedi cytuno i osod tarmac ar y llwybr.
5.7 Cynlluniau ar gyfer y pentref - nodwyd bod grŵp rhieni a fu'n gyfrifol am gynnal y ffair Nadolig am ffurfioli pwyllgor ar gyfer digwyddiadau a gwelliannau cyffredinol i'r pentref. Cytunwyd i gyd weithio gyda'r Pwyllgor er mwyn denu arian i'r ardal a chael cychwyn ar welliannau i'r Gors.
5.8 Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Cyngor Bro wedi derbyn siec gan Bwyllgor Eisteddfod Môn 2012 Llanfairpwll a'r Cylch ar ran y Cyngor Bro a'r Pwyllgor Neuadd Goffa.
5.9 Y gwaith i'r nenfwd wedi'i gwblhau. Derbyniwyd pris am gael atgyweirio ffenestri a gosod ' finger guards newydd' ar y drysau. Y Clerc i drefnu'r gwaith ym mis Ebrill o gyllideb 2013/14. Y Clerc i ysgrifennu at Bwyllgor yr Ysgol Feithrin i'w atgoffa dylid paratoi rhaglen waith tymor hir a'i gyflwyno i'r Cyngor Bro pob mis Ionawr.
5.10 Penderfynwyd ysgrifennu at Mr Dafydd Idriswyn Roberts cyn ei ymddeoliad yn yr haf i ddiolch iddo am ei waith yn yr ysgol ac i ddymuno'n dda iddo yn ei ymddeoliad.

6. Cofnodion Pwyllgor Y Fynwent 12fed Chwefror 2013
Cynigwyd gan G. Parry ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

7. Materion yn codi o'r cofnodion
7.1 Derbyniwyd dau quote am y gwaith o greu llwybr yn y fynwent. Yn dilyn trafodaeth pebderfynwyd gofyn am bris am gael dreu llwybr concrit yn hytrach na cerrig man. Y Clerc i fynd yn ôl at y cwmniau a gofyn am brisiau newydd i adlewyrchu'r newid yn y gofynion.

7.2 Carreg fedd y diweddar Annie Parry wedi sigo – y Clerc i ofyn i'r ymgymerwr pwy oedd y teulu er mwyn eu rhybuddio o'r ffaith bod angen ail osod y garreg.
7.3 Baw defaid yn y maes parcio – y Clerc i ofyn i'r Cyngor Sir pwy sydd yn piau'r defaid a gofyn i'r perchennog lanhau'r safle ar ôl symud defaid.

8. Cofnodion Pwyllgor Neuadd Goffa 12fed Chwefror 2013
Cynigwyd gan A. Jones ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir.

9. Materion yn codi o'r cofnodion
9.1 To'r Gegin - Trafodwyd cyflwr y to a nodwyd ei fod wedi gwaethygu'n arw dros y gaeaf. Teimlwyd nad oedd yn werth gwario ar waith atgyweirio gan fod cynlluniau ar y gweill i dynnu'r adeilad i lawr. Cynigwyd gan H. Huws ac eiliwyd gan A. Williams fod y Cyngor yn derbyn argymhelliad y pwyllgor ac yn cau'r gegin i ffwrdd a datgysylltu'r trydan. Y Clerc i ofyn i Andre Le Cras godi pared i greu coridor at y toiled a gofyn i Owen Parry, trydanwr i ddatgysylltu'r trydan.

10. Ceisiadau Cynllunio
31C402 3 Ffordd Rhiannon - dim sylw
31C401 Borthwnog - dim sylw

11. Cyfrifon Mis Chwefror 2013
Cyflwynwyd taenlen gwariant a derbyniadau mis Chwefror yn ogystal â thaenlen gwariant yn erbyn y gyllideb. Cynigwyd gan J. Roberts ac eiliwyd gan A. Williams. Derbyniwyd y cyfrifon a chytunwyd i'r taliadau.

12. Cytundeb Torri Gwair 2013
Adroddodd y Clerc ei bod wedi gwahodd pedwar cwmni i roi pris am y gwaith torri gwair yn y Gors a'r fynwent am y flwyddyn 2013.
Derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn:
John Roberts Landscaping - £3950
Mark Evans - £2150
Dylan Evans - Mon Grass Cutting Services - £1670
Ni dderbyniwyd ymateb gan gwmni Anglesey Mowers.
Roedd y tri chais yn cyrraedd y gofynion. Cynigwyd gan J. Roberts ac eilwyd gan H. Huws i gynnig y cytundeb i Dylan Evans, Mon Grass Cutting Services ar sail y pris isaf. Cytunwyd i'r hyn. Y Clerc i hysbysebu'r ymgeiswyr o'r penderfyniad.

13. Gohebiaeth
13.1 CSYM Penderfyniadau Cynllunio - er gwybodaeth
13.2 Gwybodaeth am Gynhadledd Cadw Mynwentydd - er gwybodaeth
13.3 CSYM - esboniad o benderfyniadau caniatáu adeiladu tai ar dir Tan Dwr
13.4 Cylch Lythyr Ieuan Wyn Jones

14. Unrhyw Fater Arall
1. Allanfa Co-op gofyn i'r Cyngor Sir am gael gosod drych er mwyn diogelwch. Y Cadeirydd i wneud ymholiadau.
2. Maes Chwarae Plant - Y Clerc i drefnu archwiliad blynyddol.
3. Tyllau yn y lon - Lon Penmynydd/Lon Refail - CSYM yn ymwybodol
4. Twmpathau arafu cerbydau Cil y Graig - Y Cadeirydd am edrych mewn i'r mater.

Dyddiad cyfarfod nesaf - Nos Fawrth 26ain Mawrth 2013 am 7.00yh

Arwyddwyd ..... (Cadeirydd) .....(Dyddiad)